OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1761 (Cy.183)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*5 Gorffennaf 2006*
Yn dod i rym	- -	*6 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**).

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2006.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aderyn caeth arall" ("*other captive bird* ") yw unrhyw aderyn a gedwir yn gaeth ac nad yw'n ddofednyn, ac mae'n cynnwys aderyn a gedwir ar gyfer sioeau, rasys, arddangosfeydd, cystadlaethau, ar gyfer bridio neu i'w werthu;

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw arolygydd a benodwyd gan awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf, neu arolygydd milfeddygol;

ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw arolygydd milfeddygol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") o ran ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "brechu" ("*vaccinate*") yw trin dofednod neu adar caeth arall â brechlyn yn erbyn ffliw adar;

mae i "brechu ataliol" yr un ystyr â "*preventive vaccination*" yn Erthygl 56 o'r Gyfarwyddeb;

(**1**) 1972 p.68.
(**2**) O.S. 2005/2766.

mae i "brechu brys" yr un ystyr ag "*emergency vaccination*" yn Erthygl 53 o'r Gyfarwyddeb;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "dofednod" ("*poultry*") yw'r holl adar sy'n cael eu magu neu eu cadw'n gaeth i gynhyrchu cig i'w fwyta neu wyau i'w bwyta, cynhyrchu cynhyrchion eraill, i ailstocio cyflenwadau adar hela neu at ddibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r categorïau hyn o adar;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**3**);

ystyr "ffliw adar" ("*avian influenza*") yw haint mewn dofednod neu adar caeth eraill a achosir gan unrhyw firws ffliw A o'r is-deipiau H5 neu H7 neu haint y mae ei fynegai pathogenedd mewnwythiennol mewn cywion ieir chwe wythnos oed yn uwch nag 1.2;

ystyr "y Gorchymyn Ffliw Adar" ("*the Avian Influenza Order*") yw Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Tarddu o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) 2006(**4**);

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau Cymunedol i reoli ffliw adar a honno'n Gyfarwyddeb sy'n diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC(**5**);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw dir, adeilad neu le.

(2) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a ddiffinnir yn y Gyfarwyddeb yr un ystyr â'r ymadroddion Cymraeg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn.

Datganiadau, hysbysiadau a thrwyddedau

3.—(1) O ran y datganiadau sy'n cael eu gwneud o dan y Rheoliadau hyn—

(a) rhaid iddynt fod mewn ysgrifen;

(b) caniateir eu diwygio neu eu dirymu, drwy ddatganiad ysgrifenedig pellach, ar unrhyw adeg;

(c) rhaid iddynt ddynodi maint y parth brechu sy'n cael ei ddatgan;

(ch) rhaid iddynt gyfeirio at y mesurau gofynnol sy'n gymwys yn y parth brechu a dweud a ydynt yn gymwys yn y parth cyfan ynteu mewn rhan ohono;

(d) rhaid iddynt ddweud i ba gategorïau o adar y mae'r mesurau yn gymwys iddynt; ac

(dd) rhaid iddynt ddweud ar draul pwy y mae'r mesurau i'w cyflawni.

(2) O ran hysbysiadau a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn—

(a) caniateir eu diwygio neu eu dirymu, drwy hysbysiad pellach, ar unrhyw bryd;

(b) rhaid iddynt bennu a ydynt yn gymwys i'r cyfan neu ran o'r fangre;

(c) os ydynt yn gymwys i ran o fangre, rhaid iddynt bennu i ba ran ohoni y maent yn gymwys;

(ch) rhaid iddynt gyfeirio at y mesurau gofynnol sy'n gymwys i'r fangre;

(d) rhaid iddynt ddweud i ba gategorïau o adar y mae'r mesurau yn gymwys iddynt; ac

(dd) rhaid iddynt ddweud ar draul pwy y mae'r mesurau i'w cyflawni.

(3) O ran trwyddedau a roddir o dan y Rheoliadau hyn—

(a) rhaid iddynt fod yn drwyddedau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan arolygydd a benodwyd gan yr awdurdod lleol ac sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol;

(**3**) 1981 p.22, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1992/3293 a Deddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p.42. Nid yw'r diwygiadau eraill yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) O.S. 2006/1762 (Cy.184).
(**5**) OJ Rhif L 10, 14.1.2006, t. 16.

(b) rhaid iddynt fod mewn ysgrifen;

(c) caniateir iddynt fod yn gyffredinol neu'n benodol;

(ch) caniateir, yn ychwanegol at unrhyw amodau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn, eu gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu eu bod yn angenrheidiol i reoli clefyd; a

(d) caniateir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu, mewn ysgrifen, ar unrhyw adeg.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd unrhyw gamau a wêl yn dda i sicrhau bod datganiadau, hysbysiadau a thrwyddedau yn cael eu dwyn i sylw'r rhai y gallant effeithio arnynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Yn benodol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i faint unrhyw barth a ddatgenir o dan y Rheoliadau hyn, natur y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys ynddo a dyddiadau ei ddatgan a'i ddileu.

(6) Ac eithrio pan gyfarwyddir fel arall gan y Cynulliad Cenedlaethol (mewn datganiad o barth brechu neu drwy hysbysiad i ddeiliad y drwydded), bydd trwyddedau a roddir yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon ar gyfer gweithgareddau y gellid eu trwyddedu yng Nghymru o dan y Rheoliadau hyn yn effeithiol yng Nghymru fel petaent yn drwyddedau a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn.

(7) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded benodol a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn—

(a) cadw'r drwydded neu gopi ohoni gydag ef bob amser yn ystod y symudiad trwyddedig;

(b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu swyddog arall i'r Cynulliad Cenedlaethol, dangos y drwydded a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohoni gael ei gymryd; ac

(c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

(8) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded gyffredinol a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn, wneud y canlynol—

(a) cario gydag ef, ar bob adeg yn ystod y symudiad trwyddedig, nodyn traddodi sy'n cynnwys manylion—

(i) yr hyn sy'n cael ei symud (gan gynnwys faint ohono);

(ii) dyddiad y symudiad;

(iii) enw a chyfeiriad y fangre gychwynnol;

(iv) enw a chyfeiriad y gyrchfan.

(b) dangos, os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu swyddog arall i'r Cynulliad Cenedlaethol, y nodyn traddodi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohono gael ei gymryd; ac

(c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

Gwahardd brechu

4.—(1) Ni chaiff neb frechu unrhyw aderyn yn erbyn ffliw adar ac eithrio pan fo'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 5 neu 6.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn y rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

(a) unrhyw beth a wneir o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(**6**); neu

(**6**) O.S. 1998/463.

(b) rhoi brechlyn yn unol â thystysgrif prawf anifeiliaid a roddwyd o dan reoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(**7**).

Penderfyniad i wneud brechu brys yn ofynnol

5.—(1) Pan fo'r amod ym mharagraff (2) wedi'i fodloni, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol i leihau'r risg o ymlediad ffliw adar—

(a) datgan parth brechu brys yng Nghymru gyfan neu mewn rhan ohoni, pan fo'r ardaloedd hynny yn cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu; neu

(b) cyflwyno hysbysiad brechu brys i feddiannydd unrhyw fangre lle mae dofednod, adar caeth eraill neu unrhyw gategori o ddofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu, yn cael eu cadw.

(2) Yr amod y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud asesiad risg sy'n dangos bod bygythiad sylweddol ac uniongyrchol y byddai ffliw adar yn ymledu yng Nghymru neu i Gymru oherwydd—

(a) brigiad ffliw adar yn y Deyrnas Unedig;

(b) brigiad ffliw adar mewn Aelod-wladwriaeth gyfagos; neu

(c) bod presenoldeb ffliw adar mewn dofednod neu adar caeth eraill mewn trydedd wlad gyfagos wedi'i gadarnhau.

(3) Bernir bod unrhyw fangre sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth brechu brys yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

Penderfyniad i wneud brechu ataliol yn ofynnol

6.—(1) Pan fo'r amodau ym mharagraff (2) wedi'u bodloni, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol i leihau'r risg o ymlediad ffliw adar—

(a) datgan parth brechu ataliol yng Nghymru gyfan neu mewn rhan ohoni, pan fo'r ardaloedd hynny yn cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu; neu

(b) cyflwyno hysbysiad brechu ataliol i feddiannydd unrhyw fangre lle mae dofednod, adar caeth eraill neu unrhyw gategori o ddofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu, yn cael eu cadw.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) bod asesiad risg wedi'i wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod yr asesiad hwnnw'n dangos bod pob ardal yng Nghymru neu fod ardaloedd penodol o Gymru, mathau o hwsmonaeth ddofednod neu gategorïau penodol o ddofednod neu adar caeth eraill yn agored i risg ffliw adar; a

(b) bod cynllun brechu ataliol wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn ac wedi'i gymeradwyo ganddo yn unol ag Erthyglau 56 a 57 o'r Gyfarwyddeb.

(3) Bernir bod unrhyw fangre sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth brechu ataliol yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

Estyn y pŵer i beri brechu

7. Er gwaethaf adran 16(1) o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad Cenedlaethol beri bod dofednod neu adar caeth eraill nad ydynt yn dod o dan yr adran honno yn cael eu brechu os ydynt mewn parth brechu neu o fewn mangre sy'n destun hysbysiad brechu ac mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel pe bai'r cyfryw frechu'n cael ei wneud wrth arfer y pŵer yn adran 16(1)—

(**7**) O.S. 2005/2745.

(a) is-adrannau 16(2) i 16(17)(**8**) (triniaeth ar ôl bod yn agored i haint);

(b) adran 16A(**9**) (lladd anifeiliaid sydd wedi'u brechu); ac

(c) adran 62A(**10**) (lladd: pŵer mynediad).

Mesurau sy'n gymwys mewn parth brechu neu i fangre o dan hysbysiad

8.—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, mewn datganiad o barth brechu neu mewn hysbysiad brechu—

(a) ei gwneud yn ofynnol i ddofednod, adar caeth eraill neu unrhyw gategori penodedig o ddofednod neu adar caeth eraill gael eu brechu yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddir ganddo; neu

(b) pan fo'r brechu i'w wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a awdurdodir ganddo i wneud y brechu gael cydweithrediad.

(2) Ni chaiff neb symud unrhyw ddofednyn, aderyn caeth arall na'u cynhyrchion—

(a) allan o barth brechu; neu

(b) allan o fangre sy'n destun hysbysiad brechu;

ac eithrio o dan awdurdod trwydded.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "*cynhyrchion*" ("*products*") dofednod neu adar caeth eraill yw unrhyw garcas, unrhyw ŵy neu unrhyw beth arall sy'n tarddu neu sydd wedi'i wneud (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o ddofednod neu adar caeth eraill neu garcasau adar o'r fath.

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

(a) i gynhyrchion sy'n deillio o ddofednod neu adar caeth eraill a leolir y tu allan i barth brechu neu fangre sy'n destun hysbysiad brechu; neu

(b) i ddosbarthiad manwerthol wyau dofednod a symudiadau sy'n dilyn dosbarthiad o'r fath.

(5) Mae paragraffau (2) i (4) yn gymwys heb leihau effaith unrhyw ofyniad neu gyfyngiad arall sy'n gymwys mewn unrhyw ran o barth neu fangre am fod y rhan honno o'r parth neu'r fangre yn dod o fewn parth arall a ddatganwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu am ei bod yn destun hysbysiad arall a gyflwynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion lleihau'r risg o ymlediad ffliw adar neu at unrhyw ddibenion eraill.

(6) Rhaid i unrhyw berson sy'n symud dofednod, adar caeth eraill neu eu cynhyrchion o dan y rheoliad hwn gadw cofnod, ar ffurf nodyn traddodi neu fel arall, o ddyddiad y symudiad ac o rif cofrestru unrhyw gerbyd a ddefnyddiwyd, am o leiaf chwe wythnos ar ôl dyddiad y symudiad.

Brechu brys heb gynllun a gymeradwywyd

9.—(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan parth brechu brys neu'n cyflwyno hysbysiad brechu brys cyn bod cynllun brechu brys wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn yn unol ag Erthygl 54 o'r Gyfarwyddeb—

(a) rhaid i drwydded a ddyroddir o dan reoliad 8(2) osod yr amodau a bennir yn yr Atodlen;

(b) rhaid i berchennog neu yrrwr unrhyw gerbyd neu gyfrwng cludo arall a ddefnyddir i gludo dofednod byw neu adar caeth eraill, wyau dofednod neu gig dofednod o dan drwydded o'r fath lanhau a diheintio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu defnyddio, y cerbyd hwnnw ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo deunydd o'r fath yn unol â Rhan 1 o Atodlen 3 o'r Gorchymyn Ffliw Adar i'r graddau y mae'n gymwys i gerbydau;

(**8**) Diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 7.
(**9**) Mewnosodwyd adran 16A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 5.
(**10**) Mewnosodwyd adran 62A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 8.